Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

10 Gorffennaf 2023

Annwyl Adrian a Kate

**Amcangyfrif atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin 2023 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am eich prosiect Gweithleoedd y Dyfodol, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf. Roedd ein hymweliad â'ch swyddfa newydd yng Nghaerdydd yn werthfawr ac rydym yn croesawu'ch dull darbodus o adleoli'r swyddfa am gost is nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Ynghyd â'ch llythyr, trafodwyd hefyd yr Amcangyfrif Atodol cysylltiedig ar gyfer 2023-24, yn ymwneud â chynigion i adleoli eich swyddfa yn Abergele i swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn arwain at arbedion blynyddol a ragwelir o oddeutu £30,000 ac yn cytuno mewn egwyddor â'r Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24, gan geisio addasiad nad yw'n arian parod o £94,000 mewn perthynas ag IFRS16.

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r dull o rannu swyddfeydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol gyda chyrff cyhoeddus eraill ac yn nodi eich asesiad cyffredinol na fyddai'r trefniant yn amharu ar wrthrychedd. Serch hynny, byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad mewn perthynas â'r cwestiynau a ganlyn:

1. A oedd unrhyw leoliadau eraill yn fwy fforddiadwy ac, wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffefrir, pa ystyriaethau a roddwyd i'r risg o ganfyddiad anffafriol o ystyried eich rôl yn archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru?
2. A gafodd unrhyw gyrff cyhoeddus eraill gyfle gan Lywodraeth Cymru i fynegi diddordeb yn y swyddfa (ac eithrio Trafnidiaeth Cymru)?
3. Mae atodiad B i'ch llythyr yn nodi, yng nghyd-destun y trefniant hwn, y gellid ystyried fod pwerau gwerth am arian/astudio'r Archwilydd Cyffredinol o ran rheoli ystadau Llywodraeth Cymru yn amharu ar wrthrychedd yn y cyd-destun hwn. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o hyn a sut y byddai

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Archwilio Cymru yn bwriadu lliniaru'r risg o amharu ar wrthrychedd (neu ganfyddiad ohono) os bydd yn ymgymryd â'r gwaith hwn yn y dyfodol?

Yn olaf, nodwn fod trafodaethau ynghylch y setliad dadfeiliad terfynol ar gyfer hen swyddfa Heol y Gadeirlan yn mynd rhagddynt gyda'r landlord, ac edrychwn ymlaen at ganlyniad cadarnhaol maes o law.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Atodiad

| Y corff a archwilir | Dyddiad terfyn |
|---|---|
| **Cyrff a ariennir yn uniongyrchol** | |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 30 Tachwedd |
| Comisiwn y Senedd | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 30 Tachwedd |
| **Llywodraeth Cymru a chyfrifon cysylltiedig** | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 30 Tachwedd |
| Cyfrif Adnoddau Llywodraeth Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 30 Tachwedd |
| Cyfrif Ardrethu Annomestig Cymru | Dim dyddiad terfyn statudol |
| Cyfrifon cryno y GIG | Dim dyddiad terfyn statudol |
| **Awdurdod Cyllid Cymru** | |
| Awdurdod Cyllid Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 31 Awst |
| Datganiad Trethi Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 31 Awst |
| **Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru** | |

| | |
|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Dyddiad terfyn penodedig ar gyfer archwilio - 31 Ionawr |
| Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 31 Awst |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Dim dyddiad terfyn statudol |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 31 Awst |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Dyddiad cau penodedig ar gyfer archwilio - 31 Ionawr |
| Amgueddfa Cymru | Dyddiad cau penodedig ar gyfer archwilio - 31 Ionawr |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 31 Awst |
| Cymwysterau Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 31 Awst |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Archwiliad o fewn pedwar mis i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru - 31 Awst |
| Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) | Dim dyddiad terfyn statudol |
| Y GIG | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | |

<table>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro</td><td rowspan="10">1. Dyddiadau terfyn gweinyddol y cytunir arnynt yn flynyddol gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer archwilio cyfrifon.<br><br>2. Dyddiad terfyn blynyddol diweddarach ar gyfer adroddiad blynyddol llawn yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</td></tr>
<tr><td>Hywel Dda University Health Board</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</td></tr>
<tr><td>Swansea Bay University Health Board</td></tr>
<tr><td>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre</td></tr>
<tr><td>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</td></tr>
<tr><td>Iechyd Cyhoeddus Cymru</td></tr>
<tr><td>Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC)</td></tr>
<tr><td>Iechyd a Gofal Digidol Cymru</td></tr>
</table>